O iachawdwriaeth gadarn

Caneuon Ffydd: Rhif 509

O iachawdwriaeth gadarn,
O iachawdwriaeth glir,
'fu dyfais o'i chyffelyb
erioed ar fôr na thir;
mae yma ryw ddirgelion,
rhy ddyrys ŷnt i ddyn,
ac nid oes all eu datrys
ond Duwdod mawr ei hun.

'Does unpeth ennyn gariad
yn fflam angerddol gref,
addewid neu orchymyn,
fel ei ddioddefaint ef;
pan roes ei fywyd drosom
beth all ef ballu mwy?
Mae myrdd o drugareddau
difesur yn ei glwy'.

O ras di-drai, diderfyn,
tragwyddol ei barhad;
yng nghlwyfau'r Oen fu farw
yn unig mae iachâd:
iachâd oddi wrth euogrwydd,
iachâd o ofnau'r bedd;
a chariad wedi ei wreiddio
ar sail tragwyddol hedd.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Hanes bywyd a marwolaeth gŵr dychmygol o'r enw *Theomemphus* sy'n sail i fodolaeth yr emyn hwn. Wrth i William Williams adrodd hynt a helynt enaid ei arwr, fe gawn ni wybod mai dyn ffiaidd, llawn twyll, rhagrith a dichell oedd Theomemphus ar y cychwyn, ond mae'n clywed gŵr o'r enw Evangelius yn pregethu'r Efengyl (pa waith arall a fyddai i ddyn â'r fath enw?), a chafodd y bregeth yr effaith o beri tröedigaeth ym mywyd Theomemphus. Rhan yn unig, felly, o'r bregeth fawr sydd gennym ni yn yr emyn hwn, er bod y tri phennill yn rhoi syniad inni o'r bregeth yn ei chyfanrwydd. Ond fe gedwir rhannau eraill o'r bregeth inni yn *Caneuon Ffydd* hefyd, sef emyn 501 ac emyn 504, a dylid eu darllen yn y drefn hon gyda 509 yn dod yn olaf. Deg pennill ydyn nhw o'r tri deg tri gwreiddiol ym mhregeth Evangelius.

Bu Theomemphus druan mewn penbleth a gwewyr meddwl ar ôl clywed amryw o bregethau, a gŵr o'r enw Arbitrius Liber yn

cyhoeddi wrtho:

‘A dim ond gwneud y gore yw’r cwbl sydd gan ddyn,
A Duw sydd siŵr o ateb, fe dystia’r gair ei hun.’

Dywed yntau wedyn wrtho ei hun: ‘Os na chaf nef heb haeddu, ffarwél am nef i mi,’ gan sylweddoli na all ennill ffafr Duw. Ond mae Evangelius yn pregethu gras Duw, a chyfiawnhad trwy ffydd, o ras. Dyma grynhoad o’r Efengyl a bregetha:

‘’R Efengyl wy’n bregethu, nid yw hi ddim ond hyn,
Mynegi’r weithred ryfedd wnawd ar Galfaria fryn;
Cyhoeddi’r addewidion, cyhoeddi’r marwol glwy’,
A diwedd llygredigaeth i’r sawl a gredo mwy.’

Dyma’r Efengyl mae Theomemphus yn ei derbyn yn llawen a daw’r iachawdwriaeth y sonia Evangelius amdani yn eiddo iddo yntau.

Cyfarch yr iachawdwriaeth gadarn a chlir hon yn bersonol a wna Evangelius yn ei bregeth; ‘Fu dyfais o’th gyffelyb erioed ar fôr na thir’, sydd yn y gwreiddiol. Mae’r iachawdwriaeth hon yn destun rhyfeddod a mawl ac yn un a esbonnir inni yn nhermau meddyginiaeth ddwyfol. Cofiwn am y pennill canlynol a’i gyfeiriad at yr archoll a’r feddyginiaeth sy’n ymddangos yn gynharach yn y bregeth ac a gynhwysir yn emyn 501:

‘Fe ddaeth i wella’r archoll drwy gymryd clwyf ei hun,
Etifedd nef yn marw i wella marwol ddyn!’

Sôn am waith Crist yn ennill iachawdwriaeth inni o’i gariad tuag atom a wna’r ail bennill a geir yma. Fe roddwyd y cyfan oedd gan Dduw i’w roi i mewn i’r iachawdwriaeth honno: ‘Pan roes ei fywyd trosom, beth all ef ballu mwy?’

Erbyn y pennill olaf sydd yn cloi pregeth Evangelius, fe sonnir am effaith bersonol yr iachawdwriaeth hon ar yr enaid ac fel mae’n feddyginiaeth i anghenion dyfnaf yr enaid, yn feddyginiaeth sydd i’w chael yn rhad ac yn ddi-dâl, o law rasusol Duw ei hun:

‘O ras di-drai, diderfyn, tragwyddol ei barhad;
yng nghlwyfau’r Oen fu farw yn unig mae iachâd:
iachâd oddi wrth euogrwydd, iachâd o ofnau’r bedd;
a chariad wedi’i wreiddio ar sail tragwyddol hedd.’

GWEDDI

Diolch iti Arglwydd am Efengyl gogoniant y bendigedig Dduw; efengyl sydd yn ras i gyd ac yn gariad, ond yn fwy na dim sydd yn iachawdwriaeth glir i mi, yn peri iechyd a bywyd a bery byth i’m henaid. Y cyfan yn enw’r Oen fu farw. Amen.